

Beth yw effaith y defnydd o iaith bositif gan yr athro ar ymddygiad disgyblion sy'n tueddi amharu ar wersi?

Gallwch ychwanegu'ch targedau o'ch aseiniad diwethaf gan ddefnyddio'r tabl isod. /

Please add your targets from the previous assignment using the table below.

	Targed/Target	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn.
Targed/Target 1	Ehanga ar dy ddarllen er mwyn i ti gyfoethogi dy wybodaeth a'th dealltwriaeth, a dy ysgrifennu beirniadol.	Er mwyn ymateb i'r targed yma rydw i wedi ehangu fy darlleniadau yn yr aseiniad yma er mwyn gyfoethogi fy ysgrifennu.
Targed/Target 2	Gwna gysylltiadau rhwng damcaniaeth ac arfer er mwyn cyfiawnhau dy ddewisiadau a'th penderfyniadau.	Rydw i wedi gwneud fwy o gysylltiadau gyda darlleniadau er mwyn cyfiawnhau fy ysgrifennu.
Targed/Target 3	Prawf-ddarlenna dy waith yn ofalus er mwyn lleihau ar wallau iaith.	Rydw i wedi prawf ddarllen fy ngwaith yn ofalus.

Beth yw effaith y defnydd o iaith bositif gan yr athro ar ymddygiad disgyblion sy'n tueddi amharu ar wersi?

Y mater oedd o ddiddordeb i mi oedd sut mae defnyddio iaith bositif o fewn yr ystafell dosbarth yn effeithio ar ymddygiad disgyblion sy'n tueddi i darfu ar wersi. Ystyriais y mater hwn oherwydd awgrymodd fy mentoriaid o fewn yr ysgol fod y math yma o strategaeth i ymateb i darfu lefel isel wedi gweithio'n dda o fewn ei dosbarthiadau. Penderfynais ganolbwyntio ar y mater hwn hefyd oherwydd yn fy ysgol i roedd tueddiad i rai disgyblion o fewn fy nosbarthiadau CA3 tarfu ar fy ngwersi. Yn fy nosbarth flwyddyn 7 yn enwedig roedd tarfu lefel isel e.e.gweiddi allan, siarad a symud o gwmpas y dosbarth.

Yn fy nosbarth flwyddyn 7 roedd sawl disgybl â thueddiad i amharu ar wersi o ganlyniad i frwdfrydedd ac awydd i ymateb. Ymchwiliais i mewn i sawl strategaeth ar gyfer delio gyda'r fath yma o amharu a phenderfynais wrth siarad efo fy mentor ysgol a fy mhartneriaid dysgu byddai'r math yma o ymchwil yn fuddiol i'r dosbarth.

Wrth drafod y syniad yma gyda fy mhartneriaid dysgu penderfynon fel triawd byddai'r ymchwil yma yn fuddiol i'r tri dosbarth, felly penderfynon ganolbwyntio ar iaith bositif ar gyfer yr ymchwil yma. Ein cwestiwn ymchwil oedd;

Beth yw effaith y defnydd o iaith bositif gan yr athro ar ymddygiad disgyblion sy'n tueddi amharu ar wersi?

Er mwyn darganfod mwy am y testun 'iaith bositif' ymchwiliais i mewn i'r llenyddiaeth sydd wedi cynhyrchu am y testun. Yn gyntaf edrychais ar ddogfen Llywodraeth Cymru oedd yn ymwneud â tharfu lefel isel o fewn y dosbarth. Yn ôl Llywodraeth Cymru;

Rhaid i hyfforddeion allu dangos eu bod yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol i bob plentyn lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus. (Llywodraeth Cymru, 2015, tud.28)

Mae creu awyrgylch bositif o fewn y dosbarth yn rhan bwysig o rôl athro o fewn y dosbarth gan fod creu awyrgylch gadarnhaol yn sicrhau'r amgylchedd addysgol orau i'r disgyblion. Fel

dywed Llywodraeth Cymru mae gan athrawon cyfrifoldeb i sicrhau hyn ynghyd a phartneriaid dysgu eraill.

Ymchwiliais yn ddyfnach i ddarganfod syniadau arbenigwyr am effaith iaith bositif ar ddisgyblion. Cyhoeddwyd erthygl am effaith iaith bositif o fewn y dosbarth ar wefan Education Dive 2017;

Generally, students respond better to positive communication. This approach edifies students rather than tearing them down and improves their perception of themselves and their school environment, which, in turn, should improve student behaviour and academic outcomes. (Harper, 2017, tud. 2)

Wrth ddefnyddio iaith bositif o fewn y dosbarth mae modd gwella ymddygiad a gwaith disgyblion trwy adeiladu hunan hyder disgyblion a sut maen nhw'n teimlo am ysgol.

Llwyddodd yr erthygl yma helpu i fireinio'r cwestiwn ymchwil trwy gefnogi fy namcaniaethau am effaith iaith bositif o fewn y dosbarth.

Er mwyn edrych ar sut mae iaith athrawon yn gallu effeithio addysg, edrychais ar waith Carol Dweck sy'n ymwneud â meddylfryd twf sef meddylfryd fod modd gwella eich hun trwy waith caled ac ymrwymiad. Yn ôl Dweck mae gan athrawon cyfrifoldeb i adeiladu hyder disgyblion yn eu gallu, er mwyn iddynt dyfu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, un o ddibenion y cwricwlwm newydd i Gymru. Dywed Dweck:

We as educators must take seriously our responsibility to create growth-mindset-friendly environments – where kids feel safe from judgement, where they understand that we believe in their potential to grow, and where they know that we are totally dedicated to collaborating with them on their learning. (Dweck, 2016, tud.217)

Wrth sicrhau fod yr amgylchedd dosbarth yn bositif ac yn agored i'r disgyblion mae modd iddynt adeiladu hyder ac adeiladu meddylfryd twf ei hun. Hefyd trwy sicrhau fod athrawon yn

agored ac yn cefnogi dysgu'r disgyblion mae'r ystafell dosbarth yn datblygu i fod yn amgylchedd lle mae modd i'r disgyblion tyfu yn feddyliol ac mewn hyder.

Wrth ystyried iaith bositif fel testun gymharol gyfoes mae'n ddiddorol fod y fath yma o ymchwil wedi bodoli am amser hir, efallai o dan enw gwahanol. Gwnaeth Vygotsky gyfeirio at bwysigrwydd addysg fel dylanwad mawr ar fywydau plant yn ei gwaith ar yr ail fodel o ddatblygiad (artificial development). Dywedodd Vygotsky fod addysg wedi diffinio fel datblygiad artiffisial y plentyn, ond nid yw addysg wedi cyfyngu i ddylanwadu ar ymddygiad, mae addysg yn ail strwythuro holl weithredoedd ymddygiadol. (Vygotsky, 1997). Yn ôl Vygotsky mae'r amser mae disgyblion yn treulio o fewn addysg yn gallu effeithio ar eu hymddygiad gweithredol sylfaenol. Wrth ystyried hyn ynghyd a datganiad Dweck am feddylfryd twf mae'n amlwg fod addysg yn un o'r dylanwadau fwyaf ar ddatblygiad plentyn.

Wrth ystyried safbwyntiau yma mae'n debyg er mwyn sicrhau fod ein disgyblion yn datblygu yn hyderus ac yn iach mae angen sicrhau fod yr amgylchedd dosbarth yn hybu datblygiad hapus. Yn ôl arbenigwr arall, Hooks, mae sicrhau amgylchedd hapus o fewn y dosbarth yn creu lleoliad lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i dyfu fel unigolion. Dywedodd Hooks; 'Seeing the classroom always as a communal place enhances the likelihood of collective effort in creating and sustaining a learning community' (Hooks, 1994, tud.8). Wrth feddwl am ddosbarth fel cymuned fel noda Hooks mae sicrhau fod y disgyblion yn hapus ac yn teimlo'n hyderus i fynegi barn a gofyn am gymorth pan fydd angen yn sicrhau fod y disgyblion yn datblygu fel dinasyddion egwyddorol sy'n barod am y byd eang. Mae defnyddio iaith bositif er mwyn annog a chanmol plant o fewn y dosbarth yn sicrhau fod disgyblion yn deall ei fod yn rhan allweddol o fewn dysgu ei hun.

Mae Hooks hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd creu awyrgylch democrataidd gan fod llais y disgybl yr un mor bwysig â'r athro erbyn hyn. Dywedodd:

Making the classroom a democratic setting where everyone feels a responsibility to contribute is a central goal of transformation. (Hooks, 1994, tud.79)

Mae'r dyfyniad yma yn pwysleisio neges graidd cwricwlwm newydd i Gymru sy'n pwysleisio pwysigrwydd fod pobl ifainc Cymru yn deall eu hawliau ac yn cyfrannu ar eu haddysg ac yn deall materion y byd. Mae sicrhau fod yr ystafell dosbarth yn amgylchedd democrataidd, positif yn creu amgylchedd diogel i'r disgyblion mynegi ei barn a chyfrannu i bob agwedd o addysg a materion y byd.

Yn ystod yr ymchwiliad yma defnyddiais amrywiaeth o ddulliau gwahanol er mwyn darganfod effaith y defnydd o iaith bositif gan yr athro ar ymddygiad disgyblion sy'n tueddi amharu ar wersi. Defnyddiwyd astudiaeth wers i gyflawni'r ymchwil gweithredol. Yn ôl yr (Education Endowment Foundation, 2017) mae astudiaeth wers yn ddull datblygiad proffesiynol sy'n cynnwys grŵp bach o athrawon sy'n gweithio gyda'i gilydd i ymchwilio i mewn i fwriad cyfrannol. Mae'r athrawon yn dysgu gwersi wrth i'w cyfoedion arsylwi a chofnodi nodiadau am y wers. Ffocws yr arsylwi yw sut mae'r disgyblion penodedig yn dysgu yn hytrach na'r athro. Daeth y dull yma o Japan yn wreiddiol a chefnogwyd gan y National College of Teaching and Leadership. Cefnogwyd sawl ymchwiliwr y dull yma yn cynnwys Godfrey et al (2018) a Wai Ming Cheung (2014) wrth ddefnyddio astudiaethau meintiol a dywedon ei fod yn ddull buddiol o gasglu data.

Er mwyn casglu data mewn ffurf dderbyniol ymchwilais i mewn i wahanol fathau o ddulliau ymchwil. Penderfynais fod arsylwi, cynnal cyfweiliadau ac adfyfrio yn sicrhau fod y data sy'n cael ei gasglu yn foesebol trwy sicrhau diogelwch yr ymchwilwyr a'r cyfranogwyr ac yn dilyn canllawiau'r British Educational Research Association (BERA). Hefyd wrth ddefnyddio'r dulliau yma mae modd casglu data ansoddol. Yn ôl yr Economic and Social Research Council 2020:

Mae dulliau ansoddol yn wyddonol, ond yn canolbwyntio mwy ar ystyr agweddau gwahanol ar fywydau pobl, ac ar eu cyfrifon o'r ffordd y maent yn deall eu hymddygiad a'u credoau eu hunain a rhai pobl eraill. (esrc, 2020. tud.36)

Wrth ddefnyddio'r dull yma o gasglu data mae modd casglu data mewn lleoliad naturiol er mwyn cael y canlyniadau gorau o'r ymchwiliad.

Wrth arsylwi gwersi fy mhartneriaid y bwriad oedd darganfod sut mae modd gwella addysgu a dysgu o fewn y dosbarth. Wrth i athrawon arsylwi ei gilydd mae modd defnyddio'r adborth positif a negyddol er mwyn gwella'r safon o addysgu o fewn y dosbarth. Eglura Dudley (2013) mae defnyddio astudiaeth wers er mwyn ymchwilio yn rhoi'r cyfle i athrawon cyd-weithio a dysgu arferion da o'i gilydd. Hefyd trwy adfyfrio a thrafod ar ddiwedd y wers mae modd adfyfrio ar y pethau positif a negyddol am y wers a gwella yn y dyfodol.

Yn ystod y cyfnod arsylwi defnyddiais daflen arsylwi â deg cwestiwn er mwyn canolbwyntio ar elfennau penodedig o'r wers. Penderfynais ar y dull yma o ganlyniad i gefnogaeth Cohen o'r dull yma. Noda Cohen fod defnyddio graddfa cyfraddiad yn rhoi cyfleoedd i'r arsylwyr dod i gasgliad ei hun trwy osgoi categoreiddio eithafol. Y fath o bethau wnes i ganolbwyntio ar oedd; sut mae'r athro yn defnyddio iaith bositif a sut mae'r disgyblion yn ymateb. Crëwyd graddfa 1-5 er mwyn sgorio'r ymatebion o ragorol i wael iawn er mwyn rhoi adborth i'r athro wrth drafod y wers. Y prif bethau penderfynon ganolbwyntio ar oedd: oedd yr athro yn defnyddio iaith bositif ar bob adeg, ac yn cymryd pob cyfle i gyfarch disgyblion yn ystod y wers. Canolbwyntion hefyd ar ymatebion y disgyblion o ganlyniad i'r iaith bositif, a oeddent yn ceisio am glod, ac yn parhau i ymddwyn yn dda ar ôl derbyn clod. Roedd y daflen arsylwi hefyd yn cynnwys rhan er mwyn ysgrifennu unrhyw sylwadau perthnasol nad oedd yn perthyn i'r cwestiynau ar y daflen. Penderfynon fel triawd i ychwanegu hyn er mwyn rhoi cyfleoedd i'r arsylwyr cynnwys sylwadau ychwanegol ac ehangu'r categorïau.

Ar ôl i'r wers orffen cynhaliwyd cyfweiliadau gyda'r disgyblion mor fuan â phosib ar ôl y wers i sicrhau fod y disgyblion yn cael cyfle i ymateb tra bod y wers o hyd yn ei feddyliai. Yn ystod y cyfweiliadau defnyddiwyd taflen cwestiynau oedd yn canolbwyntio ar sut roeddent yn teimlo yn ystod y wers o ran iaith bositif yr athro. Hefyd safbwynt personol y disgyblion yn gyffredinol am iaith bositif o fewn y dosbarth. Gofynnwyd gwestiynau er enghraifft; 'Sut fyddwch chi'n diffinio neu ddisgrifio iaith bositif? a 'Sut ydych chi'n teimlo pan mae athro/athrawes yn codi ei llais?'. Mae cael safbwynt y disgyblion yn rhan bwysig o'r

ymchwiliad oherwydd mae'n rhoi safbwynt gwahanol, i fwrdd o'r ystafell dosbarth. Wrth gyflawni'r cyfweiliadau yn y modd yma roedd modd i mi fel ymchwiliwr darganfod safbwyntiau'r disgyblion er mwyn ehangu fy nealltwriaeth o'r canfyddiadau. Nodir Danby, Ewing a Thorpe yn eu herthygl ar gyfsweld a phlant ac yn dweud;

The researcher's task, is to invite the children to present their perspectives, take their views seriously and to seek to elicit these understandings and to present them in a way that recognizes child agency. (Danby, Ewing & Thorpe, 2011, tud, 75)

Wrth wrando a nodi atebion y disgyblion yn eiriau eu hun roedd modd i mi gyflwyno eu safbwyntiau a deall eu hatebion o safbwynt nhw. Hefyd wrth roi cyfleoedd iddyn nhw siarad yn agored a rhannu syniadau eu hun roedd modd deall a chyflwyno ei syniadau er mwyn gwella'r ymchwil yn y dyfodol.

Yn ystod y cyfnod adfyfrio defnyddiais ddull adfyfrio Brookefield (2017) sy'n defnyddio pedwar lens er mwyn edrych ar yr astudiaeth wers o bedwar safbwynt. Penderfynais ar y dull yma oherwydd roedd modd i mi ystyried pob safbwynt wrth ddadansoddi'r data. Y safbwyntiau oedd safbwynt fy hun fel ymchwilir. Sut oeddwn i'n teimlo aeth y wers a sut fyddai modd gwella'r wers yn y dyfodol. Safbwynt fy nghydweithwyr a wnaeth arsylwi'r wers er mwyn darganfod safbwyntiau nhw am fy ngwers. Safbwynt y disgyblion oedd yn rhan o'r ymchwil, a wnaeth trafod eu safbwynt yn ystod y cyfweiliad. Y safbwynt olaf yw'r llenyddiaeth, beth mae'r ysgolheigion yn dweud am astudiaeth wers. Mae cynnwys fwy nag un safbwynt o fewn yr adfyfrio yn sicrhau fod y canlyniadau yn cael ei ystyried o safbwyntiau gwahanol nid yn unig yr ymchwilir. Mae darganfod safbwynt y disgyblion yn bwysig yn ôl Brookfield er mwyn dysgu wrth y disgyblion a chynnwys nhw yn ei addysg ei hun. Dywed Brookfield;

If I respond to every student challenge by cutting it off or stamping it down then not only do I dismiss the legitimacy of student criticism but also I lose the chance to learn. (Brookefield, 2017, tud.46)

Mae ystyried safbwyntiau'r disgyblion yn rhoi cyfleoedd i'r athrawon cynnwys y disgyblion yn dysgu ei hun, elfen bwysig o fewn Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae canllawiau'r Cwricwlwm newydd yn datgan dylai dysgu fod:

Yn gynhwysol er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gweld ei hun ac eraill wedi'u hadlewyrchu yn yr hyn y maen nhw'n ei ddysgu mewn addysg. (Llywodraeth Cymru, 2020, tud.40)

Wrth wrando ac ystyried syniadau a safbwyntiau'r disgyblion mae modd iddynt deall a chyfrannu i addysgu ei hun. Mae sicrhau dealltwriaeth o safbwyntiau'r disgyblion hefyd yn sicrhau fod y dysgu yn berthnasol i'r dysgwyr ac yn cefnogi ei datblygiad fel oedolion egwyddorol a gwybodus.

Wrth gynnal ymchwiliad mae'n bwysig i ystyried y safbwynt moeseg. Wrth baratoi i wneud yr ymchwiliad yma defnyddiais i ganllawiau BERA er mwyn sicrhau fy mod i'n cynnal fy ymchwiliad mewn modd moesegol. Er mwyn sicrhau fod pob disgybl a'i rhieni yn deall yr ymchwil, wnes i ddosbarthu llythyr cydsyniad i'r rhieni a'r disgyblion er mwyn iddynt lofnodi a danfon yn ôl ataf. Wnes i addasu'r llythyr i fod yn berthnasol i'r rhieni a'r disgyblion er mwyn i bawb deall yr ymchwil a sut byddent yn cyfrannu. (Gweler atodiad 15)

Wnes i hefyd sicrhau fy mod i'n defnyddio'r data yn y ffordd gywir ac yn gyfrinachol yn ôl canllawiau BERA, Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a'r brifysgol. Wnes i hefyd sicrhau fod y data yn ddidwyll a fy mod i'n hymddwyn mewn modd moesol oedd yn sicrhau diogelwch yr ymchwilwyr a'r cyfranogwyr.

Dechreuwyd yr ymchwil gyda gwers athro 1. Cynhaliwyd y wers peth cyntaf ar fore Dydd Llun gyda 26 disgybl. Yn ystod y wers roedd 3 disgybl penodedig, cyfeiriaf atom fel disgyblion A, B a C. Cafodd athro 1 ei arsylwi gan athrawon 2 a 3, a defnyddiodd yr athrawon taflenni arsylwi er mwyn cofnodi ei nodiadau yn ystod yr ymchwil. (Gweler atodiad 1 a 2). Wrth edrych ar y taflenni arsylwi ac wrth siarad efo fy mhartneriaid roedd defnydd athro 1 o iaith bositif yn dda yn ystod y wers. Roedd yr athro yn cyfarch y disgyblion yn gyson ac yn osgoi gweiddi ar bob adeg, yn aros yn dawel er mwyn fynnu sylw. Defnyddiodd

yr athro sawl ffurf o iaith bositif gan gynnwys cyfarch disgyblion am geisio ymateb a chefnogi atebion trwy sgaffaldio'r atebion.

Roedd ymateb y 3 disgybl penodedig i'r iaith bositif yn wahanol. Wrth siarad efo'r athrawon a'r disgyblion, wnaeth disgybl B ymateb orau i'r iaith bositif. Roedd y disgybl yma yn ceisio ymateb yn gyson ac yn ceisio am glod yn ystod yn gyson ac yn ceisio am glod trwy rannu gwaith a chynnig atebion. Yn ystod y cyfweiliad dywedodd disgybl B fod cael eich canmol yn beth dda, "Maen nhw'n bod yn neis" ond dywed hefyd nid oedd cael i ganmol neu'r defnydd o iaith bositif yn gwneud i'r disgybl ceisio gweithio. (atodiad 3)

Y disgybl wnaeth ymateb y lleiaf oedd disgybl C. Wrth edrych ar y taflenni arsylwi nid oedd disgybl C yn ceisio am glod yn ystod y wers ac yn parhau i darfu er gwaethaf y defnydd o iaith bositif. Yn ystod y cyfweiliad dywed disgybl C fod cael ei chanmol yn teimlo'n dda. Dywed ei fod yn cael "effaith bositif ar sut maen nhw'n gweithio" a fyddai fwy o ganmol yn beth dda. (Atodiad 4) Mae hyn yn ddiddorol gan nad oedd y disgybl yma yn ymateb i'r iaith bositif neu yn gweithio'n dda wrth gael ei chanmol.

Roedd disgybl A yn aflonydd ac yn anfodlon i weithio yn ystod y wers er gwaethaf ymdrechion athro 1 i ddefnyddio iaith bositif er mwyn ysgogi'r disgybl i weithio. Wrth edrych ar y taflenni arsylwi roedd yr athro yn osgoi gweiddi ac yn canmol y disgybl, wnaeth y disgybl barhau i darfu ac nid oedd y disgybl yn ceisio am glod o gwbl yn ystod y wers. Yn ystod y cyfweiliad dywedodd disgybl A bod derbyn clod yn gwneud i'r disgybl deimlo'n dda oherwydd maen nhw'n mynd i gael ei wobrwyo. Hefyd dywedodd, os mae'r athro yn gas mae'n gwneud i'r disgybl ddim eisiau gwneud gwaith. (Atodiad 5). Roedd ymatebion disgybl A yn ddiddorol wrth gymharu â sylwadau o'r arsylwad. Nid oedd y disgybl yn ceisio am glod ac yn parhau i darfu er gwaethaf beth ddywedodd y disgybl yn ystod y cyfweiliad.

Er mwyn gwella'r wers yma o safbwynt iaith bositif yr athro o fewn y dosbarth, byddai cymharu gyda gwers heb iaith bositif wedi rhoi fwy o dystiolaeth i ni ar sut mae defnydd yr athro o iaith bositif yn effeithio ar ymddygiad disgyblion sy'n tueddi amharu ar wersi. Byddai

fwy o ddefnydd bwriadol o iaith bositif wedi efallai newid ymddygiad y disgyblion wrth iddynt deimlo fel ei bod yn cael ei chanmol yn fwy nag arfer.

Wrth adfyfrio ar y wers yma roedd ymatebion y tri disgybl yn eang, nid oedd effaith yr iaith bositif ar y disgyblion oedd yn tueddi amharu ar wersi yn gydradd. Wnaeth pob disgybl ymateb mewn ffordd wahanol i'r iaith bositif. Roedd rhai o'r disgyblion oedd fel arfer yn tarfu yn dawel ac yn ddi-ymateb, tra bod rhai o'r disgyblion oedd yn dawel fel arfer yn ceisio am glod yn fwy aml. Er mwyn gwella'r ymchwil y tro nesaf byddai fwy nag un wers ymchwil sy'n cael ei arsylwi yn rhoi fwy o dystiolaeth i ni fel ymchwilwyr.

Ail wers yr ymchwil oedd gwers athro 2. Cynhaliwyd y wers yma yn ystod wers olaf ar Ddydd Llun gyda 25 disgybl. Cafodd y wers yma ei arsylwi gan athro 1 yn unig oherwydd amgylchiadau allanol. Wrth edrych ar y daflen arsylwi roedd defnydd athro 2 o iaith bositif yn dda, enwedig wrth fynnu sylw ac osgoi gweiddi.

Wrth edrych ar y nodiadau (atodiad 6) y disgybl wnaeth ymateb y lleiaf i'r iaith bositif oedd disgybl F. Nid oedd y disgybl yn tarfu yn ystod y wers yma felly roedd yn anodd gweld sut oedd y defnydd o iaith bositif gan yr athro yn effeithio ar ei ymddygiad. Nid oedd disgybl F yn ceisio am glod yn ystod y wers, ond un ystod y cyfweiliad dywedodd disgybl F fod derbyn clod yn gwneud i'r disgybl "Eisiau gwneud yn well bob tro ac eisiau gwneud gwaith" (atodiad 7). Mae hyn yn ddiddorol gan nad oedd y disgybl yn ceisio am glod yn ystod y wers.

Wrth edrych ar y daflen arsylwi (atodiad 6) nid oedd disgybl G yn tarfu ystod y wers. Yn wahanol i ddisgybl F roedd disgybl G yn ymateb yn rhagorol i iaith bositif yr athro ac yn mynegi mewn ffordd bositif o ganlyniad i gael ei chanmol. Yn ystod y cyfweiliad dywedodd disgybl G ei fod yn "teimlo'n well am y diwrnod" (atodiad 8) wrth i athrawon defnyddio mwy o iaith bositif. Dywedodd hefyd fod derbyn clod yn "helpu ei hyder", a dylent gael gwobr hefyd am ymddygiad da e.e. siocled.

Y disgybl wnaeth ymateb y fwyaf i'r iaith bositif oedd disgybl H. Yn ôl y daflen arsylwi (atodiad 6) wnaeth disgybl H mynegi mewn ffordd bositif o ganlyniad i gael ei chanmol. Disgybl H oedd yr unig ddisgybl a wnaeth darfu yn ystod y wers, roedd yn ceisio ymateb yn

gyson ac yn awyddus i ymateb yn ôl y nodiadau. Yn ystod y cyfweiliad dywedodd disgybl H fod derbyn clod yn effeithio ar ei ymddygiad trwy wneud i'r disgybl "meddwl am y gwaith yn well, ac yn helpu'r teimlad o lwyddiant efo'r athro ac yn y pwnc." (atodiad 9). Dywedodd hefyd fod defnydd athrawon o iaith bositif yn dangos fod yr athrawon yn "fwy parchus ac yn gwneud i'r disgybl bod yn fwy bodlon i fihafio". (atodiad 9)

Wrth edrych ar y wers yma yn gritigol er mwyn gwella'r wers y tro nesaf, byddai fwy o ddefnydd o iaith bositif fwriadol yn sicrhau fwy o dystiolaeth ar gyfer ateb y cwestiwn 'Beth yw effaith defnydd yr athro o iaith bositif ar ymddygiad disgyblion sy'n tueddi amharu ar wersi?'. Byddai newid testun y wers er mwyn rhoi fwy o gyfleoedd i ddefnyddio iaith bositif hefyd wedi bod yn well oherwydd roedd llawer o waith unigolyn yn y wers yma felly roedd yn anodd i'r athro defnyddio iaith bositif wrth sicrhau fod pob disgybl yn cael y cymorth gofynnol. Hefyd, oherwydd amgylchiadau allanol cafodd y wers yma ei arsylwi gan 1 athro yn unig, er mwyn sicrhau cydraddoldeb ar draws yr ymchwiliad byddai modd sicrhau fod pob gwers yn cael ei arsylwi gan o leiaf 2 athro. Byddai gwneud hyn yn sicrhau dibynadwyedd y casgliadau wrth gael fwy nag un safbwynt.

Y wers olaf o'r ymchwil oedd gwers athro 3. Cynhaliwyd y wers yma gwers cyn cinio ar Ddydd Mawrth, cafodd y wers yma ei arsylwi gan athrawon 1 a 2. Roedd defnydd athro 3 o iaith bositif yn dda yn ystod y wers ac roedd yr athro yn osgoi gweiddi ar bob adeg.

Wrth edrych ar y taflenni arsylwi o'r wers yma (atodiad 10 a 11) y disgybl wnaeth ymateb y lleiaf i'r iaith bositif disgybl Y. Wrth edrych ar y nodiadau nid oedd disgybl Y yn tarfu yn ystod y wers ac nid oedd y disgybl yn ceisio am glod yn ystod y wers. Wth edrych ar y sylwadau ychwanegol roedd disgybl Y yn dawel a ddim yn mynegi yn ystod y wers ond am beth siarad tuag at ddiwedd y wers. Yn ystod y cyfweiliad (atodiad 12) dywedodd y disgybl Y bod defnydd yr athro o iaith bositif yn gwneud i'r disgybl teimlo'n hapus, er nad oedd hyn yn adlewyrchu ymddygiad y disgybl yn ystod y wers.

Roedd ymatebion disgyblion X a Z yn weddol gydradd yn ystod y wers wrth feddwl am effaith iaith bositif. Roedd y ddau ddisgybl yn ymateb yn dda i iaith bositif yr athro ac yn

parhau i ymddwyn yn dda ar ôl gael ei chanmol. Roedd y ddau ddisgybl hefyd yn ceisio am glod yn gyson yn ystod y wers.(atodiad 10) Yn ystod y cyfweiliad dywedodd disgybl X fod cael ei chanmol yn gwneud i'r disgybl yn hapus, a dywedodd hefyd fod cael 'warnings' cyn cael ei cheryddu yn gwneud i'r disgybl deimlo'n fwy positif am yr athro (atodiad 14).

Dywedodd hefyd fod derbyn clod yn gwneud i ddisgybl X teimlo'n hapus.

Roedd ymatebion disgybl Z yn debyg i ddisgybl X, dywedodd fod cael ei chanmol yn gwneud i'r disgybl teimlo'n dda am weddill y wers ac roedd yn ceisio am ganmoliaeth (atodiad 13). Dywedodd disgybl Z hefyd ei fod yn teimlo'n well os mae athrawon yn codi ei llais, dywedodd "dylai'r athro ddim gweiddi ar bawb yn y dosbarth os taw unigolion sydd ar fae." (atodiad 13). Roedd ymatebion disgyblion X a Z yn cefnogi ymddygiad y disgyblion yn ystod y wers a'i ymateb positif i iaith bositif yr athro.

Wrth feddwl am wella'r wers yma er mwyn darganfod effaith iaith bositif ar ymddygiad disgyblion sy'n tueddi amharu ar wersi, fel gwers athro 2 byddai llai o dasgau unigol yn sicrhau fod gan yr athro fwy o gyfleoedd i ddefnyddio iaith bositif yn ystod y wers. Hefyd roedd ystafell ddosbarth athro 3 yn llai na'r ystafelloedd eraill felly roedd ceisio arsylwi heb amharu yn anodd gan fod y disgyblion yn sylwi ar yr arsylwyr yn fwy nag o fewn y gwersi ymchwil eraill. Er mwyn gwella'r ymchwil byddai defnyddio'r un ystafell dosbarth ar gyfer pob gwers yn sicrhau cysondeb o fewn yr ymchwil.

Wrth ystyried fy nghanfyddiadau o'r ymchwil mae'n anodd dweud os mae defnydd athro o iaith bositif yn effeithio ar ymddygiad disgyblion sy'n tueddi amharu ar wersi. O safbwynt y tair gwers, nid oedd cysondeb clir rhwng iaith bositif ag ymddygiad y disgyblion. Wnaeth rhai o'r disgyblion ymateb yn dda i'r iaith bositif a cheisio am glod ond wnaeth eraill ddim ceisio am glod o gwbl.

Cyn dechrau'r astudiaeth yma ymchwiliais i mewn i syniadau Carol Dweck am feddylfryd twf a phwysigrwydd annog disgyblion i dyfu mewn amgylchedd diogel. Mae Dweck hefyd yn sôn am gydweithrediad rhwng y disgyblion a'r athro er mwyn sicrhau'r addysg orau i'r disgyblion. (Dweck, 2016). Yn ôl erthygl cyhoeddwyd gan TES ar feddylfryd

twf, nid oes tystiolaeth fod defnyddio strategaethau meddylfryd twf yn gweithio. Yn ôl Sir Kevin Collins (chief executive of the EEF) “The independent evaluators found that pupils who received the intervention didn’t make any more progress than those who did not.” (TES, 2020). Ond mae eraill yn gwrth ddweud hyn, noda un arbenigwr;

When educators or parents instilled the idea that students were measured by their accomplishments, the students further surmised that they were measured by their failures and tended to focus on their performance rather than on knowledge acquisition (Hartmann, 2013, tud. 3)

Wrth ystyried hyn mae sicrhau fod disgyblion yn cael cefnogaeth o rieni ac athrawon yn sicrhau fod disgyblion yn deall pwysigrwydd addysg ond hefyd pwysigrwydd gweithio’n galed. Wrth greu awyrgylch positif cadarnhaol o fewn y dosbarth mae modd dysgu’r disgyblion i werthfawrogi ei champau ynghyd â’r cynnydd maent yn gwneud o fewn addysg.

Wrth feddwl am y cwestiwn ymchwil ‘beth yw effaith defnydd yr athro o iaith bositif yn effeithio ar ymddygiad disgyblion sy’n tueddi amharu ar wers?’, dydw i heb ddarganfod ateb pendant i’r cwestiwn. O un safbwynt wnaeth defnydd yr athro o iaith bositif gael effaith bositif ar ymddygiad disgyblion sy’n tueddi amharu, ond wrth edrych ar ymchwil ymhellach mae sawl ffactor sy’n gallu effeithio ar ymddygiad o fewn y dosbarth. Dywed un arbenigwr;

Teacher-student relationships that are characterised by closeness and low levels of conflict have been found to result in lower levels of behavioural problems (Silver et al. 2005, tud 45).

Wrth feddwl am hyn o safbwynt yr ymchwil mae’n bosib fod perthynas y darpar athrawon gyda’r disgyblion sy’n tueddi amharu ar wersi wedi effeithio ar ei ymddygiad yn y gwersi arsylwi. Mae’n anodd dweud os wnaeth y ffactor yma effeithio ar yr ymddygiad, gan fod y darpar athrawon ond wedi dysgu’r disgyblion yma am dymor felly heb adeiladu perthynas agos gyda’r disgyblion fel awgrymwyd yn y datganiad uchod.

Noda arbenigwyr eraill fod strategaethau eraill hefyd yn gallu effeithio ar ymddygiad disgyblion sy'n tarfu yn ystod gwersi sy'n gysylltiedig â defnydd yr athro o iaith bositif. Dywed un arbenigwr yn y *The Journal of Positive Psychology* fod positifrwydd yn gallu adeiladu gwytnwch disgyblion a gwella'i ymateb i heriau. Awgrymwyd Fredrickson:

A positive disposition is associated with broadened capabilities, personal resources, and an increase in resiliency and coping skills when faced with challenges, all of which are vital to learning in school. (Fredrickson 2006, tud. 57)

Wrth feddwl am hyn, mae sicrhau amgylchedd dysgu diogel a chydrradd yn gallu atgyfnerthu ymddygiad positif disgyblion o fewn y dosbarth. Gan nad ydynt wedi darganfod os mae defnydd yr athro o iaith bositif yn effeithio ar ymddygiad disgyblion sy'n tueddi darfu ar wersi, mae modd edrych ar ddulliau eraill ar gyfer sicrhau amgylchedd dysgu cadarnhaol.

O ganlyniad i'r canfyddiadau yma byddaf yn parhau i arbrofi gydag iaith bositif o fewn y dosbarth. Er nad oes ymchwil i gefnogi'r dulliau yma, mae'r ymchwil uchod yn cefnogi bod perthynas cadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion yn cael effaith positif ar addysg disgyblion. Wrth feddwl am fy nosbarth blwyddyn 7 wrth gyflawni'r ymchwil yma roedd yn amlwg i mi fod iaith bositif yn cael effaith cadarnhaol ar fy nisgyblion, nid yn unig y sawl sydd â thueddiad i darfu felly byddai parhau gyda'r dull yma yn fuddiol i'r dosbarth.

Wrth ddod i gasgliad am yr ymchwil yma, ni ddarganfyddais ateb cadarn i'r cwestiwn ymchwil. Mae sawl rheswm am hyn yn cynnwys anghysondebau rhwng y gwersi ymchwil. Er enghraifft cafodd y gwersi ei chynnal ar adegau gwahanol o'r dydd, cafodd gwर्स 1 ei chynnal peth cyntaf ar fore dydd Llun, Gwर्स 2 gwर्स olaf dydd Llun a gwर्स 3 cyn cinio dydd Mawrth. Gall yr anghysondeb yma fod yn rhan o'r rheswm am y gwahaniaethau rhwng y canlyniadau darganfyddwyd yn ystod y gwर्स gan fod disgyblion ymddwyn yn wahanol yn dibynnu ar amser y dydd, tywydd a.y.b. Os byddai modd gwneud yr ymchwil yma eto byddaf yn sicrhau fod y gwर्स yn cael ei chynnal mewn modd mwy cyfartal e.e. dros 3 diwrnod a chynnal y gwर्स i'r un adeg pob dydd.

Cyfngiad arall o'r ymchwil yma oedd yr anghysondeb o athrawon yn arsylwi. O ganlyniad i resymau allanol cafodd gwrs 2 ond ei arsylwi gan un athro, felly roedd ond un safbwynt a set o ddata. Er mwyn sicrhau cysondeb a dilysrwydd y data a chasglwyd, y tro nesaf byddaf yn sicrhau bod pob gwrs yn cael ei arsylwi gan ddau athro. Er enghraifft os byddai rhesymau allanol yn codi eto byddaf yn ymestyn y cyfnod arsylwi er mwyn sicrhau fod pob gwrs yn cael ei arsylwi gan ddau athro. Wnaeth y dull o archwiliad wers gweithio'n dda er mwyn archwilio i mewn i'r cwestiwn ymchwil oherwydd roedd modd i ni fel triawd arsylwi dulliau gwahanol o ddefnyddio iaith bositif. Ond wrth feddwl am argymhellion Dudley am sut i gynnal ymchwil gwrs, gall y defnydd o dri darpar athro fel yr ymchwilwyr cael ei ystyried fel cyfngiad i'r ymchwil. Dywedodd Dudley:

Lesson study works well when there is at least one member of the senior team involved and the teams have a mix of teaching experience. (Dudley, 2011, tud.6)

Wrth feddwl am argymelliadau Dudley byddai'r archwiliad wers efallai wedi bod yn fwy llwyddiannus os oedd cymysg o athrawon gyda gwahanol lefelau o brofiad yn rhoi fwy o ddyfnder i'r canfyddiadau. Wrth gael sawl safbwynt gwahanol o ran profiad mae modd dadansoddi'r ymchwil yn wrth feddwl o sawl lefel profiad.

Cyfngiad arall wnaeth ymddangos ar ôl yr ymchwil oedd y cyfweiliadau. Penderfynon ni fel triawd i wneud cyfweiliad grŵp gyda'r tri disgybl o bob archwiliad wers oherwydd yn ôl Cohen mae cyfweiliadau grŵp yn lleihau'r pwysau ar yr unigolion ac yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ymateb yn naturiol:

Group interviewing can be useful with children, as it encourages interaction between the group rather than simply a response to an adult's question. Group interviews of children might also be less intimidating for them than individual interviews. (Cohen, 2007, tud.374)

Roedd y penderfyniad yma yn gywir er mwyn sicrhau diogelwch a hapusrwydd y disgyblion ond wrth gael cyfweiliad grŵp roedd atebion y disgyblion wedi dylanwadu gan atebion y disgyblion eraill. Felly roedd yn anodd gwahaniaethu rhwng atebion gwir ac atebion oedd wedi dylanwadu gan eraill.

Er nad oedd y cwestiwn ymchwil wedi ateb ar ddiwedd yr ymchwil roedd sawl cryfder wedi ymddangos yn ystod yr archwiliad. Roedd ein taflen arsylwi wedi cynllunio wrth feddwl am beth oeddent eisiau darganfod o'r gwersi. Hefyd wnaeth cynnwys ardal 'sylwadau ychwanegol' ar y daflen yn rhoi fwy o ryddid i'r arsylwyr i gofnodi nodiadau tu allan i'r cwestiynau.

Hefyd roedd ein dewis o ddull Brookefield ar gyfer ein taflen adfyfyrio yn gryfder oherwydd wrth adfyfyrio o safbwyntiau ein hunain, fy mhartneriaid, y disgyblion a'r llenyddiaeth roedd modd cael golwg gyflawn o'r ymchwil o bob safbwynt pwysig. Wrth feddwl am yr ymchwil yma os byddai modd gwneud astudiaeth wers eto byddaf yn parhau i ddefnyddio dull Brookefield ar gyfer adfyfyrio a byddaf yn defnyddio dull tebyg ar gyfer y daflen arsylwi. Er mwyn gwella rhai o gyfyngiadau'r ymchwil byddaf yn ceisio cynnwys partneriaid gydag amrywiaeth o brofiad er mwyn safbwyntiau mwy eang.

Wrth feddwl am diffyg ateb pendant i'r cwestiwn 'Beth yw effaith defnydd yr athro o iaith bositif ar ymddygiad disgyblion sy'n tueddi amharu ar wersi?' os byddaf yn parhau gyda'r ymchwil yma byddaf yn argymhell cynnal astudiaeth wers am gyfnod hirach. Byddai 6 gwers yn lle 3 yn rhoi fwy o gyfleoedd i gasglu fwy o ddata i ddadansoddi ac ateb y cwestiwn ymchwil. Byddaf yn parhau i ddatblygu fy nefnydd o iaith bositif oherwydd er nad oes tystiolaeth gadarn i gefnogi'r effaith ar ymddygiad. Byddaf yn parhau i adfyfyrio'n unigol ar effaith iaith bositif o fewn fy nosbarth er mwyn darganfod os mae'r strategaeth yma yn gwella ymddygiad disgyblion dros amser.

Hoffwn edrych yn ddyfnach ar waith Dweck ar feddylfryd twf a darganfod os oes cysylltiad rhwng meddylfryd twf ac iaith bositif. Byddaf hefyd yn parhau i ddatblygu fy nysgu proffesiynol, dywed Sachs;

A strong teaching profession is one that is self regulating, one where teachers themselves must be committed to investing time and energy in their own continuing professional development. (Sachs, 2010,tud.17)

Wrth barhau i ymchwilio a chyflwyno fy nghanfyddiadau yn y dyfodol byddaf yn parhau i ddysgu a gwella fel athrawes. Hefyd wrth fuddsoddi amser i mewn i fy natblygiad proffesiynol byddaf yn sicrhau fy mod i'n darparu'r addysg orau i fy nisgyblion.

Rhestr Gyfeirio

British Educational Research Association. (2018). *Ethical Guidelines For Educational Research* (pp. 1 - 48). London: BERS.

Brookfield, S. (2017). *Becoming a critically reflective teacher*. John Wiley & Sons, p.46.

Cohen, L., Manion, L. and Morrison, K. (2007). *Research methods in education*. 6th ed. London: Routledge, p.374.

Danby, S., Ewing, L., & Thorpe, K. (2011). The Novice Researcher: Interviewing Young Children. *Qualitative Inquiry*, 17(1), 75. doi: 10.1177/1077800410389754

Dudley, P. (2011) Lesson Study: what it is, how and why it works and who is using it, www.teachingexpertise.com

Dudley, P. (2013). Teacher learning in Lesson Study: What interaction-level discourse analysis revealed about how teachers utilised imagination, tacit knowledge of teaching and fresh evidence of pupils learning, to develop practice knowledge and so enhance their pupils' learning. *Teaching and Teacher Education*, 34, pp.107-121.

Dweck, C. (2016). *Mindset*. New York: Ballantine Books, p.217.

Esrc.ukri.org. (2020). *Ymchwil ansoddol - Economic and Social Research Council*. [online] Available at: <https://esrc.ukri.org/amdanom-ni/beth-yw-r-gwyddorau-cymdeithasol/ymchwil-ansoddol/> [Accessed 18 Feb. 2020].

Fredrickson, B. 2006. "Unpacking Positive Emotions: Investigating the Seeds of Human Flourishing." *The Journal of Positive Psychology* 1 (2): 57-59.

Harper, A. (2017). *Using positive words in classroom can affect student behavior, build trust*. [online] Education Dive. Available at: <https://www.educationdive.com/news/using-positive-words-in-classroom-can-affect-student-behavior-build-trust/506362/> [Accessed 18 Feb. 2020].

Hooks, B. (1994). *Teaching to transgress* (pp. 8-79). New York: Routledge.

<https://www.apa.org>. (2013). *Improving Students' Relationships With Teachers*. [online] Available at: <https://www.apa.org/education/k12/relationships> [Accessed 18 June. 2020].

Llywodraeth Cymru. (2015). *Cadw dysgwyr yn ddiogel Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002* (tud. 28). Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2020). *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru* (tud. 40). Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Murphy, R., Weinhardt, F., Wyness, G., & Rolfe, H. (2017). *Lesson Study Evaluation report and executive summary November 2017* (pp. 1 - 55). Education Endowment Foundation.

Retrieved from

https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Projects/Evaluation_Reports/Lesson_Study.pdf

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. (2017). *Cod Ymarfer Moeseg ac Integreidd Ymchwil* (pp. 1-19). PCYDDS.

Silver, R. B., J. R. Measelle, , J. M. Armstrong, and M.J. Essex. 2005. "Trajectories of Classroom Externalizing Behaviour: Contributions of Child Characteristics, Family Characteristics, and the Teacher-child Relationship during the School Transition." *Journal of School Psychology*, 43: 39-60.

Tes. (2020). *Exclusive: Growth mindset lessons had no impact*. [online] Available at: <https://www.tes.com/news/exclusive-growth-mindset-lessons-had-no-impact> [Accessed 18 Feb. 2020].

Vygotsky, L. S. (1997). The Historical Meaning of the Crisis in Psychology: A Methodological Investigation. In *The Collected Works of L. S. Vygotsky. Vol. 3. Problems of the Theory and History of Psychology* (pp. 233-344).. R. W. Rieber & J. Wollock (Eds.). New York: Plenum.

Atodiad 15

FFURFLEN WYBODAETH**TEITL Y PROSIECT:**

Beth yw effaith y defnydd o iaith bositif gan yr athro ar ymddygiad disgyblion sy'n tueddi amharu ar wersi?

Annwyl Rhiant / Warcheidwad:

Fy enw i yw [REDACTED] ac rwy'n astudio am gymhwyster TAR [REDACTED]
[REDACTED] Ar hyn o bryd, rydw i'n ddarpar athro/athrawes yn [REDACTED]
ac yn addysgu yn nosbarth eich plentyn.

Hoffwn wahodd eich plentyn i gymryd rhan yn fy mhrosiect ymchwil. Teitl y prosiect yw effaith iaith positif ar ymddygiad mynegiannol ac rwy'n anelu at ddarganfod sut mae iaith positif yn effeithio ar ymddygiad disgyblion.

Caiff eich plentyn ei arsylwi am un wers gan ddarpar athrawon sydd hefyd yn cynnal astudiaeth ymchwil er mwyn darganfod sut mae iaith bositif yn cael effaith ar ymddygiad. Bydd eich plentyn hefyd yn cyfrannu mewn cyfweiliad grŵp lle byddent yn trafod eu teimladau am iaith bositif yn y dosbarth.

Bydd pob enw yn cael ei gadw'n hollol gyfrinachol a dim ond minnau a'm partner ymchwil fydd yn ei adnabod. Mae cyfranogiad eich plentyn yn yr astudiaeth hon yn gwbl wirfoddol felly gallwch chi neu'ch plentyn dynnu'n ôl o'r astudiaeth ar unrhyw adeg. Bydd gofyn i'ch plentyn roi ei gydsyniad cyn dechrau'r astudiaeth yn ogystal.

Ar ôl dadansoddi'r data a gafwyd o'r arsylwadau gwersi a'r cyfweiliad grŵp, byddwn yn falch o roi copi o'r canfyddiadau i chi ar eich cais. Bydd canlyniadau'r ymchwil yn cael eu trafod mewn aseiniad Prifysgol a fydd yn cyfrannu at fy nghwrs TAR. Caiff canlyniadau'r astudiaeth hon eu storio ar Onedrive sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol a chaiff yr holl ddata crai eu dinistrio unwaith y bydd yr asesiad wedi'i farcio.

Diolch i chi ymlaen llaw am eich amser. Os oes unrhyw gwestiynau'n codi, mae croeso i chi gysylltu â mi ar unrhyw bryd ar ebost: [REDACTED]

Yn gywir,

[REDACTED]

FFURFLEN GYDSYNIO**TEITL Y PROSIECT:**

Beth yw effaith y defnydd o iaith bositif gan yr athro ar ymddygiad disgyblion sy'n tueddi amharu ar wersi?

Enw'r Ymchwilydd: [REDACTED]

1. Cadarnhaf fy mod wedi darllen a deall y ffurflen wybodaeth sydd wedi ei dyddio [REDACTED] ar gyfer yr astudiaeth uchod. ☐
2. Deallaf fod cyfranogiad fy mhlentyn yn wirfoddol ac rwy'n rhydd i dynnu'r caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm. ☐
3. Rwy'n deall y gall fy mhlentyn ddewis tynnu'n ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm. ☐
4. Rwy'n deall y bydd y wybodaeth a roddir gan fy mhlentyn yn cael ei defnyddio mewn aseiniad Prifysgol. ☐
5. Deallaf na fydd fy enw yn ymddangos ar unrhyw bryd. ☐
6. Cytunaf i fy mhlentyn gymryd rhan yn yr astudiaeth uchod. ☐

Enw'r plentyn

Llofnod y rhiant

Dyddiad

Ar ôl ei llenwi, dychwelwch yn yr amlen a roddwyd i [REDACTED] erbyn y [REDACTED]

Diolch.